Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	7 Mehefin 2022
Aelod Arweiniol/Swyddog	Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Awdur yr adroddiad	Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Teitl	Adroddiad Ariannol (Sefyllfa Ariannol Derfynol 2021/22)

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r Cabinet wedi derbyn adroddiadau monitro rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ariannol ynglŷn â pherfformiad gwariant yn erbyn y gyllideb a'r arbedion y cytunwyd arnynt ar gyfer 2020/21. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae drafft cyntaf y Datganiad Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2021/22 ar y trywydd cywir i gael ei gyflwyno i'r archwilwyr allanol cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf er gwybodaeth. Yna, ym mis Medi, byddwn yn cyflwyno'r cyfrifon wedi'u harchwilio i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol eu cymeradwyo'n ffurfiol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I roi gwybod am y sefyllfa refeniw derfynol a chymeradwyo'r dull arfaethedig o drin balansau.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Nodi'r sefyllfa refeniw derfynol ar gyfer 2021/22.

3.2 Cymeradwyo'r driniaeth arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a balansau fel y manylir yn yr adroddiad ac yn Atodiadau 1, 2 a 3.

3.3. Nodi manylion y trosglwyddiadau i ac o'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd fel y nodwyd yn Atodiad 4.

4. Manylion yr adroddiad

Manylir ar ffigurau'r Sefyllfa Refeniw Derfynol yn Atodiad 1, ynghyd â'r driniaeth arfaethedig o falansau gwasanaeth diwedd blwyddyn. Mae'r sefyllfa derfynol gyda chyllidebau corfforaethol a gwasanaeth (gan gynnwys tanwariant o £6.778 miliwn gydag ysgolion) yn danwariant o £9.177 miliwn.

Fel yr amlygwyd yn adroddiad mis Ebrill, yn ystod mis Mawrth cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynnydd un-tro o £60 miliwn yn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2021/22 (cyfran CSDd yw £1.9994 miliwn). Er nad yw'r cyllid wedi'i neilltuo, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn bod £10 miliwn (£0.332 miliwn ar gyfer CSDd) yn cael ei ddefnyddio i ariannu gwelliannau i drefniadau teithio gweithwyr gofal, yn cynnwys cerbydau trydan. Mae cyfran CSDd wedi'i rhoi mewn cronfa benodol at y diben hwn. Bydd y swm sy'n weddill (£1.662 miliwn) yn cael ei roi yn y Gronfa Wrth Gefn Lliniaru'r Gyllideb er mwyn helpu'r Cyngor ddelio gyda phwysau chwyddiannol. Dangosir hyn yn Atodiad 1.

Roedd cyllideb 2021/22 yn gofyn am ddod o hyd i a chytuno ar arbedion gwasanaeth ac arbedion effeithlonrwydd o £2.666 miliwn fel y nodir isod:

- Mae Ffioedd a Thaliadau wedi bod yn destun chwyddiant yn unol â'r polisi Ffioedd a Thaliadau a gytunwyd (£0.462 miliwn)
- Mae arbedion effeithlonrwydd gweithredol (£690,000) wedi eu nodi yn bennaf gan wasanaethau drwy gydol y flwyddyn ac o fewn cyfrifoldeb a ddirprwywyd i Benaethiaid Gwasanaeth mewn ymgynghoriad ag Aelodau Arweiniol
- Mae arbedion o £0.781 miliwn hefyd wedi'u nodi sy'n newid darpariaeth gwasanaeth mewn rhyw ffordd a chawsant eu rhannu mewn manylder gyda'r Cabinet a'r Cyngor yn sesiynau briffio mis Rhagfyr 2020
- 1% (£0.733m) Targed effeithlonrwydd ysgolion o Gyllideb Ddirprwyedig yr Ysgolion

Tybir bod y cynyddiadau ffioedd a chostau a'r arbedion corfforaethol eisoes wedi'u cyflawni a dirprwywyd arbedion yr ysgolion i'r cyrff llywodraethu i'w monitro a'u cyflawni.

Effaith y coronafeirws – Sicrhaodd y strategaeth i weithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru gyllid grant sylweddol i helpu gyda'r pwysau yn sgil y pandemig. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol roedd CSDd wedi derbyn £10.9 miliwn ond, oherwydd amseriad yr hawliadau grant terfynol, mae gwerth £4.1 miliwn o hawliadau heb eu derbyn hyd yma. Mae'r sefyllfa derfynol yn tybio y bydd y symiau hyn yn cael eu talu'n llawn pan fydd Llywodraeth Cymru wedi cael cyfle i adolygu'r hawliadau. Bydd cyfanswm y cymorth ariannol uniongyrchol o'r ddau grant yma yn £15 miliwn os telir yr hawliadau terfynol yn llawn.

Ysgolion – Roedd y gyllideb a gytunwyd gan y Cyngor ar gyfer 2021/22 yn cynnwys cyfanswm buddsoddiad ychwanegol net o ychydig dros £2.5 miliwn yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion (heb gynnwys cynnydd mewn grantiau gan Lywodraeth Cymru). Bydd gwerth £5.670 miliwn o falansau ysgolion yn cael eu dwyn ymlaen i 2022/23, sy'n cynrychioli cynnydd o £6.778 miliwn yn y balans a ddygwyd ymlaen i 2021/22, sef £5.670 miliwn.

Mae'r symudiad o'r llynedd yn bennaf ymwneud â derbyn cyllid un-tro ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Er y croesawir hyn yn fawr, dylid cadw natur un-tro'r cyllid hwn mewn cof. Mae Atodiad 3 yn rhoi manylion y balansau fesul ysgol ac yn nodi mai'r balans cyffredinol fel canran o gyllideb 2021/22 yw 15.27%. Mae llawer o'r cyllid wedi'i glustnodi i gael ei ddefnyddio yn ystod 2022/23 er mwyn helpu ysgolion a disgyblion adfer ar ôl effeithiau'r pandemig Covid. Bydd cydweithwyr addysg a chyllid yn parhau i weithio'n agos i helpu i sicrhau bod y balansau hyn yn cael eu defnyddio yn amserol ac effeithiol.

Cyllidebau Corfforaethol – Mae prif elfennau'r tanwariant o £1.964 miliwn yn ymwneud â nifer o ffactorau yr adroddwyd yn eu cylch wrth y Cabinet drwy'r flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant yn ymwneud â chyllidebau wrth gefn a gedwir yn ganolog ar gyfer gorwariant gwasanaethau, setliadau cyflog, costau ynni ac ardrethi busnes. Mae'r tanwariant wedi'i ddefnyddio i helpu i ariannu gorwariant o £0.807 miliwn sydd wedi caniatáu i'r Cabinet ystyried cymeradwyo cario'r gwasanaethau hynny sydd wedi tanwario ymlaen. Disgwylir y bydd angen cronfeydd wrth gefn y gyllideb sydd heb eu defnyddio yn 22/23 i ariannu effaith cynnydd chwyddiannol mewn costau ar draws y Cyngor.

O ystyried y sefyllfa gyffredinol o fewn gwasanaethau a'r cyllid corfforaethol sydd ar gael, cynigir bod y gwasanaethau yn dwyn ymlaen y tanwariant net a restrir fel Balansau Gwasanaeth Ymrwymedig yn **Atodiad 1** er mwyn helpu i gyflawni strategaeth cyllideb

2022/23 a bodloni'r ymrwymiadau presennol. Mae **Atodiad 2** yn crynhoi cynigion y gwasanaethau.

Mae **Atodiad 4** yn rhoi manylion llawn y trosglwyddiadau i mewn i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ac allan ohonynt. Mae'r rhan helaeth o'r symudiadau wedi'u cynnwys yn y gyllideb neu wedi'u cymeradwyo yn sgil adroddiadau monitro blaenorol i'r Cabinet. Dylid nodi bod yr holl gronfeydd wrth gefn yn cael eu hadolygu fel rhan o'r broses gyllidebu flynyddol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol yn sylfaen i waith ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2021/22 oedd £216.818 miliwn. Y sefyllfa derfynol ar gyllidebau corfforaethol a gwasanaethau oedd tanwariant net o £2.399 miliwn (1.7% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer y meysydd hynny). Gan ystyried cyllid ac ysgolion, roedd yr amrywiant ar gyfanswm y gyllideb yn danwariant o £9.177 miliwn (4.2% o'r gyllideb refeniw net). Mae'r tanwariant net yn cynnwys £6.778 miliwn o danwariant mewn ysgolion sy'n cael ei ddwyn ymlaen ar wahân. O ran gwasanaethau sydd wedi amlygu ymrwymiadau gwario dilys, argymhellir bod y gwasanaethau hynny yn dwyn y balans net ymlaen i 2022/23. Bydd y sefyllfa ymhob gwasanaeth a defnydd arfaethedig y balansau a ddysgwyd ymlaen yn cael ei fonitro yn ystod 2022/23.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Cafodd Asesiadau o'r Effaith ar Les ar gyfer y cynnydd yn Nhreth y Cyngor eu cyflwyno i'r Cyngor ar 26 Ionawr.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, cafodd proses y gyllideb ei hystyried gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a chyfarfodydd Briffio'r Cabinet a Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllidebau Ysgolion wedi'i gynnwys yn y cynigion drwy'r flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol. Eleni hefyd, cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu gyda'r cyhoedd gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, a byddwn yn datblygu ar y profiad yn y blynyddoedd i ddod.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Rydym ni'n croesawu'r ffaith bod Strategaeth yr Adferiad Ariannol ar ôl Covid o weithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru wedi darparu sylfaen gadarn ar gyfer ymateb parhaus y Cyngor yn 2021/22. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol roedd y cymorth ariannol uniongyrchol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn fwy na £15 miliwn, sy'n dyst i werth gweithio mewn partneriaeth rhwng Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn golygu bod y Cyngor mewn sefyllfa iach i wynebu'r heriau ariannol sy'n debygol o'i wynebu yn y dyfodol.

Er bod balansau ysgolion wedi cynyddu yn y flwyddyn ariannol hon, mae hyn yn bennaf o ganlyniad i dderbyn cyllid un-tro ac felly bydd angen monitro sefyllfa ysgolion yn ofalus wrth fynd ymlaen. Hyd yn oed yn ystod cyfnod o gymorth ariannol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, mae rhai gwasanaethau wedi parhau i weld pwysau yn ystod y flwyddyn, ac mae nifer o wasanaethau eraill yn rhagweld pwysau yn 2022/23. Mae hyn ochr yn ochr â'r pwysau y mae'r Cyngor yn ei wynebu mewn perthynas â chostau ar draws ei holl wasanaethau. Mae gan y Cyngor broses gyllidebol gadarn sy'n helpu i nodi'r pwysau hyn a dulliau ariannu a fydd yn helpu i gynnal cyflwr ariannol y Cyngor i'r dyfodol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'n parhau i fod yn gyfnod heriol yn ariannol ac mae ansicrwydd mewn perthynas ag effaith barhaus Covid-19, Brexit a strategaeth ariannol Llywodraeth y DU wrth ymdrin â'r effaith ariannol hirdymor ar gyllid cyhoeddus o'r ymateb i Covid. Mae'n dda bod

Llywodraeth Cymru wedi rhoi ffigyrau dangosol cadarnhaol am y setliad ar gyfer 23/24 a 24/25, ond dylid nodi bod hyn yn is na'r amcangyfrif presennol o'r cynnydd mewn costau a phwysau. Er bod y rhagolwg ariannol yn dal yn ansicr, mae ein sefyllfa ariannol yn iach ac mae proses gyllidebu tymor canolig gadarn ar waith i helpu'r Cyngor wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.